

Beth arall sy'n byw wrth y pwll?

Craffu ar Linad y Dŵr


Planhigion ar raddfa fechan yw llinad y dŵr; mae ganddyn nhw ddail, gwreiddiau a blodau – ond eu bod yn fach iawn! Mae llinad y dŵr yn arnofio ar wyneb y pwll. Os oes llawer o linad y dŵr, gall gau golau'r haul allan, gan effeithio ar fywyd arall y pwll. Mae'r siart hwn yn dangos chwe math o linad y dŵr y gallech eu gweld wrth dreulio amser o gwmpas y pwll yn cwblhau **Arolwg Dŵr OPAL**.

GAIR O GYNGOR Efallai y bydd mwy nag un math o linad y dŵr yn y pwll. Mae'r canllaw bach hwn yn dosbarthu llinad y dŵr yn ôl faint o wreiddiau sydd ganddynt, felly edrychwch ar eu gwreiddiau i ddechrau. Wedyn, defnyddiwch faint, siâp a lliw'r dail i benderfynu pa rywogaeth sydd gennych chi. Bydd chwyddwydr OPAL yn eich helpu i wneud hyn.

Rhowch wybod i ni beth welsoch chi! Mae llinad y dŵr yn ddangosydd defnyddiol o ansawdd dŵr a chyflwr pwll. Gall llinad y dŵr ymledol (sydd wedi'u cyflwyno o wledydd tramor) effeithio'n negyddol ar ein llinad y dŵr brodorol. Helpwch ni i weld i ba raddau maen nhw wedi ymledu trwy gwblhau **Arolwg Dŵr OPAL**. www.OPALexplorenature.org

Allwedd

- Rhywogaethau ymledol
- Rhywogaethau brodorol



Llinad y dŵr di-wraidd


Llinad Di-wraidd ●

Wolffia arrhiza

Nid oes gwreiddiau ganddo byth.

Mae'r dail tua 0.5 i 2 mm o hyd, yn hirgrwn a thew. Maen nhw'n edrych fel grawnwin gwyrdd llachar bychain iawn.

Prin.



Llinad Di-wraidd yw'r dail bychain

Llinad y dŵr aml-wraidd

Llinad Mawr ●

Spirodela polyrhiza

Mae gan bob deilen fwy nag un gwreiddyn.

Mae'r dail yn fflat, yn 4 i 12 mm o hyd, a bron yn grwn neu siâp deigrwn. Mae arwyneb y ddeilen yn wyrdd gweddol dywyll ac yn llyfn neu fymryn yn rhesog. Oddi tani, mae'r ddeilen yn borffor/goch.

Anghyffredin.



oddi tani'n borffor



Dylech gymryd gofal bob amser wrth weithio'n agos at ddŵr: darllenwch y canllawiau iechyd a diogelwch yn:

www.rosa.com/leisuresafety/adviceandinformation/watersafety

0 1 2 3 4 5 cm



Llinad y dŵr gydag un gwreiddyn

Llinad Crythog ●

Lemna gibba

Mae'r dail yn gromennog, yn 2 i 6 mm o hyd. Mae arwyneb y ddeilen yn llwydwyrded neu frowngoch.

Chwiliwch am gelloedd clir fel swigod o dan y ddeilen.

Cyffredin.



oddi uchod



o'r ochr



oddi tani



Llinad Bach ●

Lemna minuta

Y dail yn fflat, 1 i 2.5 mm o hyd. Mae arwyneb y ddeilen ar y ddwy ochr yn llwydwyrded gwelw. Mae'r ddeilen yn eiddil a bron yn dryloyw.

Mae'r Llinad Bach yn rhywogaeth ymledol a gyflwynwyd o wlad dramor. Dyma'r math mwyaf cyffredin erbyn hyn mewn rhai ardaloedd, ac mae'n debygol ei fod yn dal i ymledu. Helpwch ni i weld i ba raddau y mae wedi ymledu.


Cyffredin.



oddi uchod



o'r ochr



Llinad y Dŵr ●

Lemna minor

Mae'r dail yn fflat, yn siâp wy ac yn 2 i 7 mm o hyd. Mae arwyneb y ddeilen yn felynyrded llachar. Yn wahanol i'r Llinad Bach, mae'r ddeilen oddi tani'n llawer mwy gwelw.


Cyffredin.



oddi uchod



o'r ochr



Llinad Dail Eiddew ●

Lemna trisulca

Mae'r dail yn fflat ac yn 5-10 mm o hyd. Mae pob deilen yn bigfain ac mae ganddi goesyn i'w chysylltu â dail eraill. Mae'r dail yn tyfu fel grŵp o 3, maen nhw'n dryloyw ac fel rheol yn arnofio o dan ac yn agos at wyneb y dŵr.

Nid oes ganddo fwy nag un gwreiddyn byth. Weithiau nid oes ganddo wreiddyn o gwbl.

Cyffredin.



oddi uchod



o'r ochr



Mae'r **Botanical Society of the British Isles (BSBI)** wedi datblygu'r arolwg hwn mewn partneriaeth â Chanolfan Bioamrywiaeth y DU Angela Marmont yn y Natural History Museum. Y BSBI yw'r brif gymdeithas ym Mhrydain ac Iwerddon ar gyfer astudio planhigion. Maen nhw'n cynnal arolgion ar blanhigion, teithiau maes a chyrtsiau hyfforddi yn ogystal â chyhoeddi llawlyfrau a chyfnodolion. Os hoffech ddysgu mwy am gofnodi planhigion yn eich ardal leol, ewch i'w gwefan www.bsbi.org.uk.

Testun a lluniau gan Fred Rumsey (BSBI ac NHM) a Lucy Carter (NHM).

